



Ffurflen Gais Trwydded Metel Sgrap

Rhestr Wirio Ffurflen Gais Trwydded Metel Sgrap

Defnyddiwch y tabl isod i wneud yn siwr eich bod hefo popeth sydd ei angen er mwyn cwblhau eich cais am drwydded newydd neu adnewyddu trwydded yn llwyddianus. Mae gwybodaeth pellach i'w gael o dudalen 10 ymlaen.

Ffurflen gais wedi ei gwblhau	<input type="checkbox"/>
Datganiad Sylfaenol (<i>Gan GOV.UK</i>)	<input type="checkbox"/>
Taliad	<input type="checkbox"/>
Cod Gwiriad Treth HMRC (<i>Ei angen ô'r 04/04/2022 ymlaen</i>)	<input type="checkbox"/>
Llun Pasport (x2)	<input type="checkbox"/>

Ffurflen gais Trwydded Sgrap Metel

ADRAN 1. (I'R HOLL YMGEISWYR)

Nodwch pa fath o drwydded yr ydych yn gwneud cais amdani (ticiwch y blwch):

Trwydded safle Trwydded casglwr

A ydych yn gwneud cais fel (ticiwch y blwch):

Unigolyn Cwmni Partneriaeth

Nodwch eich enw masnachu:

A yw'r cais hwn yn gais i gymeradwyo trwydded newydd neu adnewyddu trwydded (ticiwch y blwch perthnasol):

Cymeradwyo trwydded newydd Adnewyddu trwydded

Os ydych chi'n adnewyddu trwydded, nodwch rif eich trwydded bresennol:

ADRAN 2. CYMERADWYAETH, COFRESTRIADAU A THRWYDDEDAU SYDD MEWN GRYM

Nodwch fanylion unrhyw ganiatâd, eithriad neu gofrestriad amgylcheddol sydd mewn grym (megis deliwr metel sgrap neu weithredwr adfer cerbydau), mewn perthynas â'r ymgeisydd:

Mâth: Rhif adnabod: Dyddiad cyflwyno:

Mâth: Rhif adnabod: Dyddiad cyflwyno:

Gellir parhau ar daflen ar wahân pe bai angen

Nodwch fanylion, yn cynnwys rhif y drwydded, unrhyw drwydded metel sgrap arall a gyhoeddwyd gan unrhyw awdurdod i'r ymgeisydd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf (gellir parhau ar dudalen ar wahân pe bai angen):

A ydych yn gludwr gwastraff cofrestredig? Ydw Nac ydw

Os 'ydw', nodwch eich rhif cofrestru:

ADRAN 3. I'W GWBWLHAU OS YDYCH YN GWNEUD CAIS AM DRWYDDED SAFLE

D.S. Mae trwydded safle yn awdurdodi'r trwyddedai i weithredu busnes ar safle yn ardal yr awdurdod. Gallwch wneud cais i drwyddedu mwy nag un safle gan ddefnyddio'r ffurflen hon.

Manylion y darpar drwyddedai

Teitl (ticiwch y blwch):

Mr Mrs Miss Ms Arall

(nodwch os gwelwch yn dda):

Rwyf I dros 18 mlwydd oed (ticiwch y blwch):

Ydw Nac ydw

Dyddiad Geni:

Cyfenw:

Enwau cyntaf:

Swydd/Rôl yn y busnes:

Atodaf Dystysgrif Datgelu Sylfaenol a ddyrannwyd i'r ymgeisydd gan GOV.UK¹:Oes Nac Oes

Os na fyddwch yn cyflwyno dystysgrif datgelu, efallai y bydd oedi gyda'ch cais neu gall eich cais gael ei wrthod.

Manylion cyswllt (byddwn yn defnyddio eich cyfeiriad busnes i ohebu â chi oni bai eich bod yn ein hysbysu y dylem ddefnyddio eich cyfeiriad cartref)

Cyfeiriad Busnes:

Enw'r brif swyddfa neu enw / rhif y tŷ:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Cod Post:

Rhifau ffôn:

Dydd:

Gyda'r nos:

Ffôn Symudol:

Cyfeiriad Cartref:

Enw/rhif y tŷ:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Cod Post:

Cyfeiriad e-bost:

Noder bod gofyn o hyd i chi roi eich cyfeiriad post i ni.

¹ Gellir gweld rhagor o wybodaeth am Disclosure and Barring Service (DBS) gan GOV.UK yn y nodiadau eglurhaol sydd gyda'r ffurflen hon.

Manylion y Safle.

Nodwch fanylion pob safle ble 'rydych yn bwriadu gweithredu busnes deliwr metel sgrap yn ardal yr awdurdod lleol. Os ydych yn gweithredu ar fwy nag un safle yn yr ardal, rhowch fanylion pob safle ar daflen ychwanegol. (D.S. – Os yw'r ymgeisydd yn gweithredu ar sawl safle yn ardal yr awdurdod trwyddedu, dylid cael mwy nag un rheolwr safle)

Cyfeiriad llawn pob safle yr ydych am ei ddefnyddio i weithredu fel deliwr metel sgrap:**Manylion rheolwr(neu rheolwyr) y safle (os yw'n wahanol i'r ymgeisydd:****Safle 1:**

Enw neu rif:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Cod Post:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

Gwefan:

Enw:

Enw/rhif y tŷ:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Cod Post

Dyddiad Geni:

Gwiriad DBS sylfaenol wedi atodi²: Do Naddo **Safle 2:**

Enw neu rif:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Cod Post:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

Gwefan:

Enw:

Enw/rhif y tŷ:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Cod Post

Dyddiad Geni:

Gwiriad DBS sylfaenol wedi atodi: Do Naddo

Partneriaethau (Os ydych yn gwneud cais fel partneriaeth, nodwch y manylion a ganlyn am bob partner - defnyddiwch daflen ychwanegol os oes mwy na dau bartner)

Enw llawn:

Dyddiad Geni:

Cyfeiriad cartref:

Gwiriad DBS sylfaenol wedi atodi³: Do Naddo

Enw llawn:

Dyddiad Geni:

Cyfeiriad cartref:

Gwiriad DBS sylfaenol wedi atodi: Do Naddo

Cwmnïau (os ydych yn gwneud cais fel cwmni, nodwch y manylion isod ynghylch y cwmni)

Enw'r cwmni:

Rhif cofrestru:

Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig:

Nodwch y manylion a ganlyn am bob cyfarwyddwr, cyfarwyddwr cysgodol ac ysgrifennydd cwmni pan fônt yn wahanol i'r ymgeisydd a'r rheolwr (rheolwyr) safle - defnyddiwch daflen ychwanegol os bydd angen.

Rôl:

Enw:

Dyddiad Geni:

Enw/Rhif y tŷ:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Cod Post:

Gwiriad DBS sylfaenol wedi atodi⁴: Do Naddo

Rôl:

Enw:

Dyddiad Geni:

Enw/Rhif y tŷ:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Cod Post:

Gwiriad DBS sylfaenol wedi atodi: Do Naddo

Nodwch fanylion unrhyw safle yn yr ardal neu mewn unrhyw awdurdod lleol arall ble mae'r ymgeisydd yn gweithredu busnes fel deliwr metel sgrap neu'n bwriadu gwneud hynny:

Cyfeiriad:

Cod Post:

³ Gellir gweld rhagor o wybodaeth am Disclosure and Barring Service (DBS) gan GOV.UK yn y nodiadau eglurhaol sydd gyda'r ffurflen hon.

⁴ Gellir gweld rhagor o wybodaeth am Disclosure and Barring Service (DBS) gan GOV.UK yn y nodiadau eglurhaol sydd gyda'r ffurflen hon.

Rhowch enw'r awdurdod lleol sydd wedi trwyddedu'r safle, neu'r awdurdod y gwnaed ceisiadau iddo cyn dechreuad Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013:

Gellir parhau ar daflen ar wahân pe bai angen.

A oes gennych chi ganiatâd cynllunio* (ticiwch y blwch):

* *Ddim ond yn berthnasol i safleoedd a sefydlwyd ar ôl 1 Tachwedd 1990*

Oes Nac oes

ADRAN 4. I'W GWBLHAU OS YDYCH YN GWNEUD CAIS AM DRWYDDED CASGLWR

D.S. Mae trwydded casglwr yn awdurdodi'r trwyddedai i ymgymryd â busnes fel casglwr symudol yn ardal yr awdurdod yn unig.

Manylion y darpar drwyddedai

Teitl (ticiwch y blwch):

Mr Mrs Miss Ms Arall

(nodwch os gwelwch yn dda):

Rwyf I dros 18 mlwydd oed (ticiwch y blwch):

Ydw Nac ydw

Dyddiad Geni:

Cyfenw:

Enwau Cyntaf:

Atodaf Dystysgrif Datgelu Sylfaenol a ddyrannwyd i'r ymgeisydd gan GOV.UK⁵:

Oes Nac oes

Os na fyddwch yn cyflwyno dystysgrif datgelu, efallai y bydd oedi gyda'ch cais neu gall eich cais gael ei wrthod.

Manylion cyswllt (byddwn yn defnyddio eich cyfeiriad busnes i ohebu â chi oni bai eich bod yn ein hysbysu y dylem ddefnyddio eich cyfeiriad cartref)

Cyfeiriad Busnes:

Enw/rhif y tŷ:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Cod Post:

Rhifau ffôn:

Dydd:

Gyda'r nos:

Ffôn Symudol:

⁵ Gellir gweld rhagor o wybodaeth am Disclosure and Barring Service (DBS) gan GOV.UK yn y nodiadau eglurhaol sydd gyda'r ffurflen hon.

Cyfeiriad cartref

Enw/rhif y tŷ:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Cod Post:

Cyfeiriad e-bost:

*Noder bod gofyn o hyd i chi roi eich cyfeiriad post i ni***Ble fyddwch chi'n storio metel sgrap sydd wedi'i brynu cyn i chi ei waredu ymhellach?**

Enw/rhif y tŷ:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Cod Post:

Ni fydd yn cael ei storio: **ADRAN 5. ADFER CERBYDAU (I'R HOLL YMGEISWYR)**

Fydd eich busnes yn cynnwys gweithredu fel gweithredwr adfer cerbydau? Diffinnir hyn fel busnes sydd:

- Yn gyfan gwbl, neu'n rhannol, yn adfer rhannau o gerbydau i'w hailddefnyddio neu eu hailwerthu, ac yna'n gwerthu gweddill y cerbyd fel sgrap;
- Yn gyfan gwbl, neu'n rhannol, yn prynu cerbydau sydd y tu hwnt i'w hadfer (*written off*) ac ynau trwsio a'u gwerthu; ac,
- Yn gyfan gwbl, neu'n rhannol, yn gwerthu cerbydau er diben adfer rhannau ohonynt neu eu trwsio a'u gwerthu.

Bydd Na fydd **ADRAN 6. CYFRIFON BANC A DDEFNYDDIR I WNEUD TALIADAU I GYFLENWYR (I'R HOLL YMGEISWYR)**

Yn unol a gofynion S.12 Scrap Metal Dealers Act 2013 nodwch y manylion cyfrif i'r cyfrifon banc fydd yn cael ei defnyddio i wneud a derbyn taliadau. Os oes mwyn nag dau cyfrif banc yn cael ei defnyddio plis defnyddiwch daflen ychwanegol i'w nodi.

Enw'r cyfrif:

Enw'r cyfrif:

Cod didoli:

Cod didoli:

Rhif y cyfrif:

Rhif y cyfrif:

ADRAN 7. TALIAD (I'R HOLL YMGEISWYR)

Dylech dalu am eich trwydded delwyr metel sgrap gyda siec daladwy i "Cyngor Gwynedd"

ADRAN 8. GWIRIAD TRETH HMRC (I'r rhai sydd yn adnewyddu trwydded yn unig)

O 4 Ebrill 2022 bydd ychwanegiad bach at y gwiriadau trwyddedu sy'n digwydd yn barod. Bydd angen i chi gwblhau gwiriad treth gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) wrth i chi adnewyddu eich trwydded i ddelio mewn metel sgrap. Ar ôl i chi gwblhau'r gwiriad, byddwch yn cael cod. Mae'n rhaid i chi roi'r cod hwn i'r uned drwyddedu. Ni fyddwn yn gallu symud ymlaen â'ch cais am drwydded neu adnewyddu trwydded hyd nes y bydd y gwiriad wedi'i gwblhau a'n bod wedi derbyn y cod.

Cod treth HMRC:

ADRAN 9. COLLFARNAU TROSEDDOL (i'r holl ymgeiswyr)

A ydych chi, unrhyw bartner a nodwyd, unrhyw gyfarwyddwr a nodwyd, neu unrhyw reolwr (reolwyr) safle a nodwyd yn y cais hwn, erioed wedi'u cael yn euog o drosedd berthnasol neu wedi bod yn destun unrhyw gamau gorfodaeth perthnasol? (Gweler isod restr o droseddau perthnasol).

Do Naddo

Os 'do', rhaid i chi nodi manylion pob euogfarn, dyddiad yr euogfarn, enw a lleoliad y llys a'ch euog farnodd, y drosedd ble y cafwyd chi'n euog ohoni a'r ddedfryd a roddwyd:

ADRAN 10. DATGANIAD (i'r holl ymgeiswyr)

Mae'r wybodaeth a nodir yn y ffurflen hon yn wir ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred. Deallaf os byddaf yn gwneud datganiad yr wyf yn gwybod sy'n anwir, neu os byddaf yn gwneud datganiad sy'n anwir yn ddi-hid, y byddaf yn cyflawni trosedd dan Atodlen 1, Para 5 Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013, ac y gallaf gael fy erlyn am hynny, a chael dirwy os caf fy marnu'n euog o'r drosedd.

Deallaf y gall yr awdurdod lleol yr wyf yn gwneud cais iddo ymgynghori ag asiantaethau eraill ynghylch fy addasrwydd i gael trwydded fel deliwr metel sgrap, yn unol ag adran 3(7) Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013, ac y gallai'r awdurdodau eraill hynny gynnwys awdurdodau lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, a'r heddlu.

Deallaf fy mod yn rhannu'r wybodaeth hon fel y gellir llunio asesiad llawn o'm haddasrwydd i gael trwydded i weithredu fel deliwr metel sgrap. Deallaf hefyd y gall gwybodaeth gael ei rhannu amdanaf, yn cynnwys gwybodaeth bersonol sensitif, megis gwybodaeth am unrhyw droseddau blaenorol. Yn ogystal, bydd rhai manylion yn cael eu harddangos ar gofrestr genedlaethol, yn unol â Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013. Rhoddaf fy nghaniatâd drwy hyn i'm gwybodaeth gael ei phrosesu ac i'r wybodaeth berthnasol gael ei harddangos ar y gofrestr gyhoeddus.

Llofnodwyd:

Dyddiad:

Help I gwblhau eich cais am drwydded deliwr metel sgrap

Os ydych chi angen mwy o help i gwblhau'r cais, ffoniwch dîm trwyddedu'ch Cyngor Lleol. Byddant hwy yn fodlon helpu.

Adran 1 – I bawb

Mae'r adran hon yn gofyn p'un a ydych yn gwneud cais am drwydded casglwr neu drwydded safle. Dim ond am un math o drwydded y gallwch wneud cais amdani ym mhob ardal Cyngor, ond gallwch wneud cais i redeg mwy nag un safle. Er enghraifft, gallwch wneud cais i redeg 3 safle yn ardal Cyngor A a gwneud cais i fod yn gasglwr yn ardal Cyngor B.

- Mae **trwydded safle** yn caniatáu i chi brynu a gwerthu metel sgrap o leoliad sefydlog yn ardal y Cyngor.
- Mae **trwydded casglwr** yn caniatáu i chi deithio yn ardal y Cyngor i gasglu metel sgrap. Ni chewch fynd â'r metel hwn yn ôl i safle yr ydych yn ei redeg yn ardal y cyngor er mwyn ei werthu.

Adran 2 – I bawb

I weithredu'ch busnes, efallai eich bod angen caniatâd neu drwydded amgylcheddol arall ac rydym angen gwybod amdanynt. Er enghraifft, os ydych chi'n cludo gwastraff fel rhan o'ch busnes, mae'n ofyn cyfreithiol i gofrestru fel cludwr gwastraff. Mae hyn yn cynnwys cludo gwastraff wrth deithio o swydd i swydd, i fan storio er mwyn ei waredu yn ddiweddarach neu i gwmni gwaredu gwastraff neu safle gwastraff. Am fwy o wybodaeth am hyn, neu i gofrestru:

- Galw: 0300 065 3000.
- Ymweld: <https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/waste-permitting/register-as-a-waste-carrier-broker-or-dealer/?lang=cy>

Yn ogystal, mae'r adran hon yn gofyn am fanylion unrhyw drwyddedau metel sgrap eraill sydd gennych chi. Sicrhewch eich bod yn nodi rhif y drwydded fel bod modd i ni wirio hyn yn erbyn y gofrestr genedlaethol.

Adran 3 – Trwyddedau Safle

Cwblhewch yr adran hon os ydych yn dymuno cael **trwydded safle**. Dylid llenwi'r adran hon yn enw'r person fydd yn dal y drwydded deliwr metel sgrap. Ynghyd â manylion amdanoch chi a'ch busnes, byddwn angen manylion unrhyw gyfarwyddwyr neu bartneriaid sydd yn gysylltiedig â'r busnes hefyd, yn cynnwys eu cyfeiriad cartref. Yn ogystal, byddwn angen gwybod beth yw cyfeiriad y safle(oedd) yr ydych am gael trwydded ar eu cyfer, ynghyd â manylion pob rheolwr safle sy'n gyfrifol am y safle hwnnw. Mae angen y manylion hyn yn ôl y gyfraith ac fel y gellir cysylltu â chi os bydd unrhyw broblemau.

Mae angen i chi gyflwyno Gwiriad DBS Sylfaenol o GOV.UK. Gallwch wneud hyn drwy ymweld a <https://www.gov.uk/request-copy-criminal-record>

Mae gofyn am hyn gan fod y Swyddfa Gartref wedi penderfynu bod angen i chi ac unrhyw berson sydd wedi'i restru ar y cais ddweud wrth y cyngor eich bod wedi'ch cael yn euog o droseddau penodol. Ni fydd bod ag euogfarn yn eich atal yn awtomatig rhag cael trwydded os nad oedd y drwydded yn gysylltiedig â gweithredu fel deliwr metel sgrap neu wedi digwydd amser maith yn ôl, ac os gallwch argyhoeddi'r cyngor eich bod yn berson addas.

Ystyrir bod Tystysgrif Datgelu Sylfaenol yn ddilys am amser cyfyngedig yn unig, ond gellir ei defnyddio i wneud cais i gynifer o gynghorau ag y mynnwch yn ystod y cyfnod penodol hwnnw. Fel arfer, tri mis yw'r cyfnod hwyaf y gallwch ddisgwyl i'ch gwiriad barhau'n ddilys.

Nid oes llawer o ofod ar y ffurflen, felly os ydych chi angen rhestru mwy nag un rheolwr safle, cyfarwyddwr neu bartner, parhewch ar daflen ychwanegol o bapur glân gan nodi'r manylion yn yr un diwyg a'r ffurflen.

Rheolwr safle yw'r person fydd yn gyfrifol am y safle yn ddyddiol. Mae'n debyg y byddwch angen rheolwr safle gwahanol ar gyfer pob safle ar y drwydded.

Mae **cyfarwyddwr** neu **bartner** yn rhywun sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am y cwmni, neu'n rhywun sy'n rhannu'r cyfrifoldeb hwnnw, yn cynnwys ffeilio enillion yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Yn ogystal, rydym eisiau gwybod os ydych chi'n gweithredu safle, neu'n bwriadu gweithredu safle, mewn ardal awdurdod lleol arall, gan nodi manylion y safle, y cyngor a roddodd y drwydded i chi neu i bwy yr ydych wedi gwneud cais am drwydded.

Os cafodd eich safle(oedd) ei sefydlu ar ôl 1990, mae angen i chi gael caniatâd cynllunio gan y Cyngor. Bydd angen i chi ddweud wrthym ni os yw hyn yn berthnasol i chi, a byddwn yn gwirio hyn ag adran cynllunio'r Cyngor.

Adran 4 – Trwydded Casglwr

Llenwch yr adran hon os ydych yn dymuno cael **trwydded casglwr**. Dylid llenwi'r adran hon yn enw'r person fydd yn dal y drwydded deliwr metel sgrap. Gofynnir i chi ddarparu'ch manylion cyswllt, yn cynnwys ble 'rydych yn byw, fel y gall y Cyngor gysylltu â chi os bydd angen.

Mae angen i chi gyflwyno Gwiriad DBS Sylfaenol o GOV.UK. Gallwch wneud hyn drwy ymweld a

<https://www.gov.uk/request-copy-criminal-record>

Mae gofyn am hyn gan fod y Swyddfa Gartref wedi penderfynu bod angen i chi ac unrhyw berson sydd wedi'i restru ar y cais ddweud wrth y cyngor eich bod wedi'ch cael yn euog o droseddau penodol. Ni fydd bod ag euogfarn yn eich atal yn awtomatig rhag cael trwydded os nad oedd y drwydded yn gysylltiedig â gweithredu fel deliwr metel sgrap neu wedi digwydd amser maith yn ôl, ac os gallwch argyhoeddi'r cyngor eich bod yn berson addas.

Ystyrir bod Tystysgrif Datgelu Sylfaenol yn ddilys am amser cyfyngedig yn unig, ond gellir ei defnyddio i wneud cais i gynifer o gynghorau ag y mynnwch yn ystod y cyfnod penodol hwnnw. Fel arfer, tri mis yw'r cyfnod hwyaf y gallwch ddisgwyl i'ch gwiriad barhau'n ddilys.

Hefyd, 'rydym yn gofyn i chi am y man ble byddwch yn storio unrhyw fetel sgrap sydd wedi'i gasglu cyn i chi fynd ag ef i safle trwyddedig i'w waredu. Noder nad ydych yn cael gwerthu neu brynu metel yn y safle storio hwn a bod gwneud hynny yn drosedd. Gall hwn fod yn safle trwyddedig yr ydych yn ei weithredu mewn ardal Cyngor arall.

Bydd angen i chi sicrhau bod eich cerbydau i gyd yn ffit i fod ar y ffordd ac wedi'u trethu a'u hyswirio ac yn bodloni pob gofyn cyfreithiol arall i fod ar y ffordd.

Adran 5 – Gweithredwr adfer cerbydau

Mae'r adran hon yn gofyn p'un a fyddwch yn adfer cerbydau fel rhan o'ch gwaith. Mae Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 yn dwyn ynghyd Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 1964 ynghyd â Rhan 1 Deddf Cerbydau (Trosedd) 2001, sydd bellach yn golygu mai dim ond trwydded deliwr metel sgrap sydd ei hangen arnoch.

Adran 6 – Cyfrifon banc a ddefnyddir i dalu cyflenwyr

Mae'r adran hon yn gofyn am fanylion y cyfrif(on) banc y byddwch yn eu defnyddio i dalu pobl am y metel sgrap y byddwch yn ei dderbyn neu yn ei werthu. Gwneir hyn i sicrhau nad ydych yn gwerthu'r metel am arian parod, sy'n anghyfreithlon. Bydd y Cyngor yn cadw'r manylion hyn yn ddiogel.

Adran 7 – Taliadau

Mae ffi'n daladwy wrth wneud cais am drwydded a bydd eich Cyngor yn rhoi gwybod i chi ynghylch sut allwch chi dalu'r ffi. Mae'r ffi'n amrywio o Gyngor i Gyngor gan ei bod yn adlewyrchu eu costau o brosesu'r ffurflen a gwirio bod pobl yn gwneud yr hyn sy'n ofynnol yn ôl y drwydded. Ni ellir derbyn ceisiadau hyd nes y telir y ffi gywir.

Mae manylion am y ffioedd sydd yn gysylltiedig gyda Trwyddedau Metel Sgrap ar gael ar wefan y Cyngor:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Trwyddedau/Trwyddedau-busnes-a-masnachu-ar-y-stryd/Deliwr-metel-sgrap.aspx>

Adran 8 – Gwiriad Treth HMRC

O 4 Ebrill 2022 bydd ychwanegiad bach at y gwiriadau trwyddedu sy'n digwydd yn barod. Bydd angen i chi gwblhau gwiriad treth gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) wrth i chi adnewyddu eich trwydded i:

- Yrru tacsis a cherbydau hurio preifat
- Rhedeg busnes cerbydau hurio preifat
- Delio metel sgrap

Bydd y newidiadau hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Darllenwch y canllawiau sy'n rhoi gwybod i chi beth y dylech ei wneud os ydych yn ymgeisydd newydd neu'n adnewyddu eich trwydded: <https://www.gov.uk/guidance/changes-for-taxi-private-hire-or-scrap-metal-licence-applications-from-april-2022>

Os ydych yn gwneud cais am drwydded am y tro cyntaf, nid oes angen i chi gwblhau'r gwiriad treth. Fodd bynnag byddwn yn gofyn i chi ddarllen canllawiau HMRC ar yr hyn y mae angen i chi ei wneud fel eich bod wedi'ch cofrestru'n briodol am dreth yn y dyfodol a bydd angen i chi gadarnhau eich bod wedi gwneud hyn.

O 4 Ebrill 2022, os ydych yn adnewyddu neu'n gwneud cais am drwydded arall dan gorff trwyddedu gwahanol, bydd yn rhaid i chi wneud gwiriad treth. Byddwch yn gallu gwneud hyn ar-lein drwy wasanaeth digidol.

Byddwch yn gallu defnyddio'r gwasanaeth digidol i gwblhau eich gwiriad treth o ddechrau mis Mawrth 2022. Dylech fod wedi cofrestru i dalu'r dreth/trethi priodol ar eich incwm trwyddedig a bydd angen i chi gadarnhau eich bod wedi cofrestru yn ystod y gwiriad treth. Ewch i GOV.UK cyn gynted â phosib i weld os oes angen i chi gofrestru.

- Os ydych wedi'ch cyflogi gan rywun arall, cewch wybodaeth am PAYE yn:
<https://www.gov.uk/income-tax/how-you-pay-income-tax>
- Os ydych yn hunangyflogedig fe gewch wybodaeth am gofrestru ar gyfer Hunanasesiad yn:
<https://www.gov.uk/register-for-self-assessment>
- Os ydych yn gweithredu drwy gwmni, cewch wybodaeth am Dreth Corfforaeth yn:
<https://www.gov.uk/corporation-tax>
- Gall HMRC eich helpu os byddwch angen cymorth ychwanegol, er enghraifft os byddwch angen gwybodaeth ar fformat gwahanol neu help i lenwi ffurflenni. Ewch i:
<https://www.gov.uk/get-help-hmrc-extra-support>

Efallai hefyd y gallwch gwblhau gwiriad treth dros y ffôn drwy linell gymorth cwsmeriaid

<https://www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs/contact/self-assessment>

Dim ond ychydig funudau ddylai gwiriad treth ei gymryd i'w gwblhau.

Byddwch yn gallu cwblhau'r gwiriad treth yn GOV.UK drwy eich cyfrif Government Gateway. Dim ond ychydig o gwestiynau y bydd angen i chi eu hateb i ddweud wrth HMRC sut yr ydych yn talu unrhyw dreth a allai fod yn ddyledus o'r incwm yr ydych yn ei ennill ar eich masnach drwyddedig. Os nad oes gennych gyfrif Government Gateway yn barod, gallwch gofrestru yn: <https://www.gov.uk/log-in-register-hmrc-online-services/register>

Ar ôl i chi gwblhau'r gwiriad, byddwch yn cael cod. Mae'n rhaid i chi roi'r cod hwn i'r uned drwyddedu. Ni fyddwn yn gallu symud ymlaen â'ch cais am drwydded neu adnewyddu trwydded hyd nes y bydd y gwiriad wedi'i gwblhau a'n bod wedi derbyn y cod. Ni fydd yr Uned Drwyddedu yn cael unrhyw wybodaeth gan HMRC heblaw cadarnhad eich bod wedi cwblhau'r gwiriad treth, ni fyddwn yn gallu gweld unrhyw wybodaeth am eich materion treth.

Os dylech fod wedi'ch cofrestru i dalu treth ond nad oeddech, bydd HMRC yn gweithio gyda chi yn ddi-oed ac yn broffesiynol i'ch cael chi'n ôl ar y trywydd cywir. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich materion treth yn gywir ond mae HMRC yno i helpu.

Adran 9 – Euogfarnau

Mae'r adran hon yn gofyn i chi nodi unrhyw euogfarnau neu gamau gorfodaeth perthnasol sydd wedi'u cymryd yn eich erbyn gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n drosedd dan Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013 i wneud datganiad ffug. Gwirir y wybodaeth a restrir yma yn erbyn y Gwiriad DBS Sylfaenol o GOV.UK sydd angen i chi ei chyflwyno â'r cais, ynghyd â'r wybodaeth a gedwir gan yr heddlu ac Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru.

Section 10 – Datganiad

Mae angen i'r sawl fydd yn dal y drwydded deliwr metel sgrap lofnodi a dyddio'r datganiad, ynghyd ag unrhyw berson arall a enwir ar y ffurflen. Yn ogystal, mae'r adran hon yn egluro bod y rhaid i'r Cyngor rannu ychydig o'r manylion hyn â'r heddlu, Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru wrth wirio p'un a yw'r ymgeisydd (ymgeiswyr) yn berson addas i ddal trwydded. Yn ogystal, bydd peth o'r wybodaeth yn cael ei harddangos ar gofrestr gyhoeddus.

Os na fyddwch yn cytuno i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth yn y fath fodd, yna **ni ddylech** lofnodi'r ffurflen. Os ydych mewn unrhyw amheuaeth am ystyr yr adran hon, siaradwch â thîm trwyddedu eich Cyngor.

Relevant offences

Mae'r rhain i gael eu cadarnhau yn Rheoliadau'r Swyddfa Gartref Mae'r LGA yn rhagweld, yn seiliedig ar y nodiadau eglurhaol sy'n gysylltiedig â Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013, y bydd y rhain yn adlewyrchu cynlluniau caniatáu amgylcheddol eraill ac yn awgrymu'r isod fel rhestr ddangosol:

- Deddf Rheoli Llygredd (Fel y'i diwygiwyd) 1989: Adrannau 1, 5 neu 7(3)
- Deddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979: Adran 170 (am droseddau sy'n berthnasol i'r amgylchedd / dwyn metel yn unig)
- Deddf Amgylchedd 1995: Adran 110(2)
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2007: Rheoliad 38
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010: Rheoliad 38
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990: Adrannau 33 a 34
- Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985: Adran 9(1)
- Deddf Twyll 2006: Adran 1 (am droseddau sy'n berthnasol i'r amgylchedd / dwyn metel yn unig)
- Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005
- Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005
- Rheoliadau Tirlenwi (Cymru a Lloegr) 2002
- Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012: Adran 146
- Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000

- Deddf Enillion Troseddau 2002: Adrannau 327, 328, 330, 331 a 332 (am droseddau sy'n berthnasol i'r amgylchedd / dwyn metel yn unig)
- Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007
- Deddf Delwyr Metel Sgrap 1964 (am droseddau sy'n berthnasol i'r amgylchedd / dwyn metel yn unig)
- Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013
- Deddf Dwyn 1968: Adrannau 1, 8, 9, 10, 11, 17, 18, 22 a 25 (am droseddau sy'n berthnasol i'r amgylchedd / dwyn metel yn unig)
- Rheoliadau Cludo Gwastraff ar Draws Ffiniau 1994
- Rheoliadau Cludo Gwastraff ar Draws Ffiniau 2007
- Deddf Cerbydau (Trosedd) 2001: Rhan 1
- Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff 2006
- Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011: Rheoliad 42
- Deddf Adnoddau Dŵr 1991: Adran 85, 202 neu 206